Mari Jones: c.1784–1864

# Cerdded milltiroedd i chwilio am Feibl

**Dyfalbarhad / dewrder / ymddiriedaeth**

Doedd Mari Jones ddim yn hoffi bore dydd Sul. Byddai'n cymryd ei hamser i fwyta'i brecwast. "Brysia, Mari fach," meddai ei mam, "neu mi fyddwn ni'n hwyr yn y capel."

"Mam, dydw i ddim eisiau mynd i'r capel. Mae'r pregethwr yn siarad am amser hir ac mae'r ..."

Torrodd ei mam ar ei thraws. "Mari, os nad wyt ti'n barod mewn pum munud, mi fydda i yn dweud wrth dy dad."

Rhedodd Mari ar ei hunion i ymolchi ac i wisgo ei dillad capel. Cyn pen dim roedd wedi cyrraedd y capel. Eisteddodd i wrando ar y pregethwr. Ond doedd hi ddim yn deall yr un gair. Ar ôl iddo orffen siarad a phawb yn canu emyn, fe ddywedodd y pregethwr, "Bydd ysgol newydd yn agor yn y pentref yr wythnos nesaf. Fe gaiff pob plentyn yn yr ardal fynd i'r ysgol i ddysgu darllen a sgwennu."

Ar ei ffordd adref, roedd Mari yn meddwl am yr hyn a ddywedodd y pregethwr. Roedd hi am fynd i'r ysgol newydd, "Mi fydda i wedyn yn medru dysgu darllen. Mi fedra i ddarllen fel y pregethwr wedyn."

Roedd Mari mor hapus!

Daeth criw o blant i'r ysgol ar y bore cyntaf. Yn eu plith roedd Mari Jones. Un peth roedd hi eisiau ei wneud. Ie – dysgu darllen. Yn fuan iawn, roedd hi'n medru darllen straeon o'r Beibl. Straeon am bobl fel Moses, Samuel, Samson a Iesu Grist. Pan ddaeth hi adref o'r ysgol un noson dywedodd wrth ei mam, "Mam, mi ydw i am gasglu arian i brynu Beibl."

"Ond Mari annwyl, mae Beiblau yn ddrud iawn. Mi fydd rhaid i ti fod wrthi'n casglu am flynyddoedd," meddai'i mam.

Am bron i chwe blynedd bu wrthi'n casglu ei harian i brynu Beibl. Droeon roedd hi wedi meddwl gwario'r arian ar bethau eraill – dillad newydd, anrheg i'w rhieni, ond dal ati wnaeth Mari. Erbyn hyn, roedd hi'n bymtheg oed.

Aeth at y pregethwr a dweud wrtho ei bod wedi casglu arian i brynu Beibl. Dywedodd y pregethwr wrthi fod pobl y pentref wedi clywed am hyn. "Maen nhwthe wedi casglu ychydig bach i ti," meddai'r

pregethwr. Roedd Mari mor falch. Roedd ganddi ddigon o arian i brynu Beibl. Yn ôl y pregethwr, y lle agosaf i brynu Beibl oedd y Bala. Roedd y Bala tua phum milltir ar hugain o gartref Mari. Doedd dim troi arni. Cychwynnodd ar ei thaith i chwilio am Feibl. Taith hir oedd y daith i'r Bala.

Cyrhaeddodd dŷ Thomas Charles. Curodd ar y drws. Daeth Thomas Charles i'r drws. "Mr Charles?" gofynnodd Mari.

"Ie," meddai yntau, "pwy wyt ti?"

"Mari Jones ydi f'enw i. Mi ydw i wedi dod yma i brynu Beibl."

Edrychodd Thomas Charles arni, "Wel, wyddost ti, rydw i wedi gwerthu'r olaf ddoe."

Dechreuodd Mari grio. "Yli," meddai Thomas Charles wrthi, "mae gen i un Beibl yn fan 'ma i ffrind i mi sydd wedi gofyn amdano, ond fe gei di hwn."

Goleuodd wyneb Mari. Cydiodd yn y Beibl mawr. "Cofia di ei ddarllen," meddai Thomas Charles wrthi.

Doedd y ffordd yn ôl i'w chartref ddim mor hir â hynny. Dawnsiai o lawenydd. Roedd ganddi Feibl a byddai'n gallu darllen am Iesu Grist. Cyrhaeddodd adref a rhedodd i mewn i'r tŷ gan weiddi, "Mam, Mam, mi ydw i wedi cael Beibl gan Thomas Charles o'r Bala."

Gafaelodd ei mam ynddi, "Wyt ti'n hapus rŵan, Mari fach?" meddai. "Fe gei di ddysgu darllen yn yr ysgol yn ystod y dydd ac yna gyda'r nos fe gei di ddarllen y Beibl mawr yma yn y tŷ."

Roedd Mari mor hapus. Hi oedd biau'r Beibl. Ei Beibl hi oedd o.

"Gofynnwch, ac fe roddir i chwi; chwiliwch ac fe gewch; curwch ac fe agorir i chwi."

Mathew 7:7

Diolch i Ti, O Dduw,
am bobl benderfynol.
Roedd Mari'n benderfynol ei bod am gael Beibl.
Fe gasglodd arian,
Fe gerddodd yr holl ffordd i'r Bala.
Helpa finnau i fod yn benderfynol yn y pethau gorau.
Amen.

I beth fuasech chi'n casglu eich arian?
Gwnewch restr o'r prif bethau.

**Mari Jones: c.1784–1864**